CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
18 Ionawr 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, C McGregor, D Pritchard, D Roberts, W Williams, G D Williams, D ap Rhobert, A Wyn, E S Williams, A C Jones (o 4.8 ymlaen), (R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Cyng A Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18.11.21. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Cydgodfan Bws, Talwrn** – Dywedodd y Clerc bydd y Gwaith yn cael ei wneud wythnos yn dechrau 24.01.22.
4.2	**Damweiniau Sgwar Talwrn** - Nid yw'r gwaith "chevron" wedi'i wneud hyd yn hyn Bydd y Clerc yn cael prisiau am oleuadau sy'n fflachio ar gyfer y cyfarfod nesaf
4.3	**Dwr ar lôn Benllech – Llanddyfnan** – Mae'r Cyngor Sir wedi dweud y byddan nhw'n ystyried gwaith yn yr ardal yn y flwyddyn ariannol newydd.
4.4	**Carthffosiaeth Talwrn** – Dywedodd y Cyng E S Williams fod y camerâu wedi bod yn eu lle ers misoedd. Mae'r Cyngor Sir yn dal i ganiatáu ceisiadau cynllunio yn yr ardal. Bydd y Clerc yn cysylltu â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru am ddiweddariadau.
4.5	**Mynwent Llanddyfnan (tap)** - Mae'r Clerc yn disgwyl i blymwr ailosod y tap
4.6	**Gor-yrru Maenaddwyn** - Mae'r Cyngor Sir wedi cynnal adolygiad o gyflymder traffig ac yn disgwyl am y data
	Llofnod…….Cadeirydd 15.02.22

4.7	**Beiciau trydan -** Cytunwyd y gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
4.8	**Gor-yrru/lldio Talwrn** - Bydd y Clerc yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn a ydynt wedi monitro'r ardal ac a ydynt am ychwanegu marciau ffordd. Hefyd, a fyddant yn ystyried gostwng y terfyn cyflymder i 20 myh.
4.9	**Ymddiriedolaeth Elusen Tir Llanffinan** - Dywedodd y Cyng McGregor nad oedd cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi dod i law eto. Fodd bynnag, dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth a'r tirfeddiannwr wedi derbyn bil o bron i £1000 ar gyfer atgyweirio giât a wal ar lwybr cyhoeddus. Ni roddwyd unrhyw rybudd iddynt o'r gwaith. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd dreuliau eraill a thua £1000 yn eu cyfrif. Cytunwyd i wneud cyfraniad o £360 i'r Ymddiriedolaeth tuag at y bil am atgyweiriadau.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	**Gor-yrru** Maenaddwyn – gweler 4.6
5.2	**Safle bws**, gyferbyn a'r tai Cyngor, Talwrn - Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn adroddiad gan y Cyngor Sir fod rivets wedi dod yn rhydd yn y coesau yr cysgodfan . Cyflogodd R G Hire i osod boltiau yn lle'r rivets. Mae wedi gwneud y gwaith yn rhad ac am ddim. Mae'r Clerc wedi cysylltu ag ef i ddiolch iddo.
5.3	**Tyn Llan, Tregaian** – Mae y Clerc wedi derbyn cwyn gan Mr Elfed Jones, Capel Coch ynglyn a dwr wyneb ger Tyn Llan, Tregaian. Mae wedi cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir. Mae gwaith atgyweirio wedi ei wneud
5.4	**Dwr ar y lon** B5110 – Talwrn – gweler 4.3
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Heddlu Gogledd Cymru (beiciau trydan) – gweler 4.7
6.2	Dosbarthwyr bagiau cŵn - Roedd y Clerc wedi derbyn neges gan y Cyng W Williams yn dweud fod y peiriannau dosbarthu yn Nhalwrn yn wag. Nid oedd wedi eu llenwi ond tua 4 wythnos yn flaenorol. Mae wedi eu llenwi eto. Cytunwyd i drafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.
	Llofnod…….Cadeirydd 15.02.22

6.3	**Arolwg problemau carthffosiaeth lleol** - Cytunwyd bod y Clerc yn ymateb i Llyr Gruffydd gan fanylu ar y problemau yn Nhalwrn
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd I dalu:
7.1	Yswirian blynyddol Zurich £323.84
7.2	Rhys Williams torri gwair £1130.00
7.3	JRB Enterprise (bagiau gwastraff cwn) £173.70
7.4	Cyngor Cymuned Bryngwran (cyfraniad at costau cyfrif Zoom, sydd yn cael ei defnyddio hefyd gan Cyngor Landdyfnan) £71.94
7.5	Budget 2022/2023 – Cytunwyd I codi'r praesept £10500.
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Tyfiant Maes y Coed - Bodlondeb
9.2	Adolygu llwybrau cyhoeddus
9.3	Bagiau gwastraff cwn
9.4	Gwahodd PCSO i'r cyfarfod nesaf
	Llofnod…….Cadeirydd 15.02.22